

Drama

Amser – 1.5 awr

Atebwch DDAU gwestiwn.

1. Beth a olygir gan y term 'theatr gymwysedig'? Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol i ategu'ch ateb.
2. Eglurwch beth a olygir gan **ddau** o'r termau canlynol: realaeth, naturoliaeth, mynegiadaeth, theatr yr absŵrd a/neu theatr ôl-ddramatig? Lle y bo'n briodol dylech gyfeirio at destunau dramâu, cynyrchiadau neu berfformiadau yr ydych wedi'u gweld, i ategu'ch ateb.
3. Perfformiad. Theatr. Drama. Ai'r un peth yw'r tri? Os nad ydynt, ym mha ffordd y maen nhw'n wahanol?
4. Disgrifiwch sut y byddech yn mynd ati i greu darn *ensemble* wedi'i seilio ar thema benodol o'ch dewis. Dylech roi sylw i'r pethau canlynol: sut y byddech yn cyflawni'r ymchwil, y prosesau a ddefnyddir gennych wrth greu'r darn, y strategaethau ymarfer, y gynulleidfa a'r dull llwyfannu.
5. Trafodwch waith **dau** ymarferydd/dramodydd/cwmni theatr gyfoes sydd o ddiddordeb i chi. Dylech gyfeirio at destunau neu berfformiadau penodol i ddangos yr hyn sy'n neilltuol ynglŷn â'u gwaith.
6. Ym mha ffordd y mae'r theatr yn berthnasol i'r gymdeithas sydd ohoni? A yw'n dal yn berthnasol heddiw? Trafodwch.
7. Awgrymwyd fod dramâu William Shakespeare yn berthnasol i'r gymdeithas gyfoes o hyd. Gan gyfeirio at ddramâu penodol a chynyrchiadau cyfoes o waith Shakespeare, trafodwch pam ei fod yn dyfalbarhau o hyd ym myd y theatr.